**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20fed Mehefin 2011**

**GWEITHGAREDDAU DIOGELWCH CYMUNEDOL**

**Adroddiad gan Gareth Griffiths, Uwch Reolwr Diogelwch Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I hysbysu Aelodau o ddatblygiad gweithgareddau Diogelwch Cymunedol yn 2010/2011 ac i adrodd ar y cynnydd yn erbyn targed Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o wneud 30,000 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (ADTC) y flwyddyn.

## Cefndir

2 Mae Adran Diogelwch Cymunedol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydlynu'r cyflwyniad o nifer o wasanaethau sydd wedi eu cynllunio i wneud cymunedau Gogledd Cymru yn fwy diogel. Mae'r rhain yn cynnwys ADTC, ymyriadau ieuenctid a mentrau i ostwng gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Maent wedi eu hariannu'n bennaf gan grant uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r cyflwyniadau o ADTC yn hanfodol i'r nod yma. Strategaeth yr Awdurdod oedd cyflwyno ADTC i bob cartref yng Ngogledd Cymru dros 10 mlynedd, gan olygu targed o 30,000 y flwyddyn.

## Gwybodaeth

### Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref

3 Gwnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 36,900 o ADTC yn 2010/11. Mae hyn yn cynnal y cynnydd yn y nifer o archwiliadau a gyflwynwyd flwyddyn ar flwyddyn yn dilyn ail ganolbwyntio holl bersonél y Gwasanaeth yn 2007 tuag at Ddiogelwch Cymunedol.

4 Oherwydd adleoli swyddi'r ALP, cyflogwyd 5 o ymarferwyr rheng flaen ADTC ychwanegol gan y Gwasanaeth ym mis Medi 2010. Mae'r cynnydd yn y nifer o ymarferwyr wedi gweld cynnydd o 60% yn y nifer o ADTC wnaed gan ymarferwyr (o 8168 yn 2009/10 i 13531 yn 2010/11).

5 Dyma'r dadansoddiad o ADTC y sir:

| | 2009/2010 | 2010/2011 |
|---|---:|---:|
| Conwy | 6368 | 6465 |
| Sir Ddinbych | 4977 | 5760 |
| Sir y Fflint | 4998 | 7480 |
| Gwynedd | 6325 | 6960 |
| Wrecsam | 4532 | 4608 |
| Ynys Môn | 5602 | 5632 |

6 Mae pob sir wedi dangos cynnydd ar y ffigwr a gyflawnwyd y flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd mawr yn y galw am ADTC yn Sir y Fflint ac felly trefnwyd adnoddau ychwanegol i'r sir er mwyn delio â'r holl alwadau.

7 Cydnabyddir fod Protocolau Rhannu Data yn hanfodol i adnabod unigolion sydd mewn perygl o dân. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi adolygu'r trefniadau cyfredol a chytuno ar brotocolau newydd gyda'r 6 Awdurdod Lleol. Am y tro cyntaf, mae Ymddiriedolaeth Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth sy'n cynnwys y cyfleuster i bartneriaid i ddarparu rhestrau o unigolion bregus yn rheolaidd.

8 Yn ystod 2010/2011, darparodd dros 70 o asiantaethau fwy na 8,000 o atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth. Trwy ein cydlynydd trydydd sector, mae gennym ni 12 o asiantaethau sy'n cyflwyno ADTC ar ein rhan. Mae'r rhain yn cynnwys Gofal a Thrwsio, Age Concern a'r Lleng Prydeinig Brenhinol.

## Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd

9 Yn 2010/2011, cynhaliodd y tîm Diogelwch Cymunedol, gyda chefnogaeth Heddlu Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Ambiwlans Cymreig nifer o ddigwyddiadau 'Effeithiau Marwol' mewn ysgolion a cholegau ar draws Gogledd Cymru, gan

ymgysylltu â 5108 o fyfyrwyr ar draws chwe awdurdod unedol. Mae'r sioe deithiol wedi ei chynnal ar y cyd rhwng y 3 gwasanaeth brys ac wedi ei chynllunio i addysgu pobl ifanc am y peryglon sy'n gysylltiedig â gyrru.

10 Defnyddiwyd dau gerbyd y 'Sioe Impact', sydd wedi eu lleoli yng Ngwynedd a Wrecsam mewn digwyddiadau er mwyn cefnogi'r neges. Roedd yr unedau yma'n cael eu defnyddio'n lleol hefyd mewn digwyddiadau llai ac roedd staff wedi ymgysylltu ag oddeutu 3000 o bobl ifanc yn 2010/11.

11 Ym mis Ebrill 2009, cychwynnodd GTAGC brosiect i gyflwyno addysg diogelwch ar y ffyrdd i gyhoedd Gogledd Cymru, yn enwedig yr oedran 16-35. Er mwyn cyflawni hyn, prynwyd cerbyd ymgysylltu gyda phobl ifanc, yn rhannol gydag arian y Cynulliad. Roedd gan y cerbyd gyfleusterau DVD ac wedi ei griwio gan yr adran Diogelwch Cymunedol. 'Fire Cruze' yw enw'r fenter ac mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio mewn llefydd lle mae gyrwyr ifanc yn ymgynnull yn aml mewn ymdrech i'w haddysgu. Rhwng Ebrill 2010 ac Ebrill 2011, ymgysylltodd GTAGC â dros 5,000 o yrwyr ifanc drwy 'Fire Cruz'. Adnabuwyd y lleoliadau gan Heddlu Gogledd Cymru, drwy grŵp Gorchwyl a Chydlynu HGC y mae GTAGC yn bartner ohono.

## Cynlluniau Ieuenctid

12 Mae timau Diogelwch Cymunedol ac Ymyrraeth Ieuenctid GTAGC yn ymdrechu i ymgysylltu â phobl ifanc ar draws ystod eang o addysg ysgol prif lif i'r rhai sydd wedi cael eu diarddel o'r ysgol, i rai sydd â materion ymddygiad troseddol i'r rhai sy'n cael eu gweld 'mewn perygl' mewn unrhyw ffordd. Mae Prosiect y Ffenics yn un o'r mentrau yma sydd wedi eu hanelu'n benodol at bobl ifanc fydd efallai'n manteisio o ymyrraeth tu allan i ymagweddau prif lif.

13 Mae atgyfeiriadau i gynllun y Ffenics yn cael eu derbyn gan nifer o bartneriaid gan gynnwys Awdurdodau Addysg Lleol, HGC, Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Mae cwrs wedi cael ei ddarparu i Garchar Altcourse i droseddwyr o Ogledd Cymru sydd ar fin cael eu rhyddhau. Cwblhawyd cyfanswm o 24 o gyrsiau yn 2010/11.

14 Dyma’r nifer o gyfranogwyr y Ffenics fesul sir:

| | **2010/2011** |
|---|---|
| Conwy | 35 |
| Sir Ddinbych | 37 |
| Sir y Fflint | 56 |
| Wrecsam | 49 |
| Gwynedd | 60 |
| Ynys Môn | 51 |
| **Cyfanswm** | 317 |

15 Mae’r rhaglen addysgu ysgolion, sydd wedi ei hwyluso gan ein haddysgwyr, yn galluogi ymweliadau i’m holl ysgolion uwchradd yn flynyddol ac i ysgolion cynradd bob dwy flynedd.

16 Dyma ddadansoddiad o’r ymweliadau ysgol:

| **2010/2011** | **Ysgolion** | **Disgyblion** |
|---|---|---|
| Cam Allweddol 1 | 308 | 10,355 |
| Cam Allweddol 2 | 317 | 11,141 |
| Cam Allweddol 3 | 48 | 6,618 |
| | | |

**Argymhelliad**

17 Fod Aelodau’n nodi:

(i) cyflawniad y Gwasanaeth yn rhagori ar darged yr Awdurdod Tân ac Achub am archwiliadau diogelwch tân yn y cartref;

(ii) datblygiad parhaol o weithgareddau Diogelwch Cymunedol yn yr ardaloedd o addysgu am wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac ymyraethau ieuenctid.